



Tu Allan i'r Bocs 2: Preswyliaid Archifau

Cyfarwyddyd Artist

CEFNDIR: Archifau Morgannwg yw'r gadwrfa ar gyfer cofnodion sir hanesyddol Morgannwg, sydd mewn lleoliad ynysedig mewn ardal rhannol ddiwydiannol ar gyrion Grangetown, Caerdydd. Cymhellant y rhaglen preswyliaid yw annog ymrwymiad creadigol rhwng y gymuned ag Archifau Morgannwg – adnodd cyhoeddus cyfareddol sydd a dros 180,000 o eitemau yn ei gasgliad, sydd ar gadw mewn adeilad a godwyd i'r pwrpas dan arweinyddiaeth tîm o staff gadwraeth dra medrus.

Tu hwnt i'w rôl statudol mae'r Archifau yn cadw ystod eang o eitemau hanesyddol diddorol megis dyddiaduron, ryseitiau, cynlluniau pensaernïol, cofnodion mwyngloddio a llythyrau personol. Yn y stordai lle reolwyd y tymheredd, mae'r dinesig a'r personol yn cydfodoli a dim ond drwy ymchwilio gallwch ddod o hyd i'r deunydd mwyaf diddorol. Mae hyn yn gyfle i bori drwy'r gorffennol a chlywed lleisiau ein cyndeidiau.

AMDAN Y PRESWYLIAD: Mae'r preswyliaid Tu Allan i'r Bocs 2 yn Archifau Morgannwg yn cynnig cyfle i'r artist i feddu ar ddatblygiad proffesiynol wrth ymchwilio offer cadwraeth, deunydd hanesyddol, categorïau cyfeirio a gwagleoedd/ardaloedd yr adeilad mewn amgylchedd cefnogol.

Bydd yr Archifau yn cynnig lleoliad i'r artist bydd wedi ei seilio o gylch ddesg, ond mae croeso i'r artist – a bydd yn cael ei annog – i greu gwaith yn yr Archifau, er bydd rhaid gweithio o fewn cyfyngiadau'r gofod (swyddfa agored, gyda charpet, a rhannwyd gydag eraill).

Bydd Art Shell, Warp g39, Made in Roath ac artist preswyl y llynedd, Simon Fenoulhet, yn cynnig mentora, cymorth ac adnoddau eraill i'r artist. Bydd Art Shell yn rheoli'r preswyliaid ac mewn cyswllt rheolaidd gyda'r artist a'r Archifau drwy gydol y preswyliaid, ynghyd a chefnogi gweithdai yn yr ardal leol am waith yr artist preswyl yn yr Archifau.

Mae hyfforddiant i'r artist yn ffurfio elfen fawr o'r preswyliaid. Bydd yr artist yn cael mynediad dan oruchwyliad i offer stiwdio cadwraeth yr Archifau, gan gynnwys y peiriant creu bocsys, wal golau, peiriant stem ac offer rhwymo llyfrau a bydd hyfforddiant ar gael ar sut i ddefnyddio'r eitemau, ynghyd a dulliau ymchwil yr Archifau.

Bydd y preswyliaid yn cynnig i'r artist amser a gofod i weithio i ffwrdd o'i weithgareddau creadigol arferol, a'r cyfle i symud ei gwaith mewn cyfeiriadau creadigol newydd a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y byd cyhoeddus.

Gall y digwyddiadau canlynol yng nghalendr yr Archifau fod yn berthnasol i'r preswyliaid:

29 Medi – Digwyddiad Drysau Agored dan nawdd CADW

24 Hydref – Sgwrs Cymraeg, 'I hope to have a good passage' - llythyrau busnes Capten Daniel Jenkins, 1902-11', i ddatllygu Blwyddyn y Môr

15 Tachwedd – Diwrnod Meddiannu Plant Mewn Amgueddfeydd

Tu Allan i'r Bocs 2: Preswyliaid Archifau

Cyfarwyddyd Artist (parhad)

CYFNOD: Bydd y preswyliaid yn parhau am 6 mis gyda'r artist yn bresennol yn yr Archifau am o leiaf 30 diwrnod. Yn ddelfrydol byddwn yn hoffi ymrwymiad gan yr artist i fod yn yr Archifau yn rheolaidd ac i ymrwymo a'r Archifau a'r staff er mwyn manteisio i'r mwyaf ar y preswyliaid, ond deallwn y bydd angen cydbwysu hyn ag ymrwymadau eraill yr artist.

DISGWYLIADAU: Gwelwyd y preswyliaid fel cyfnewidfa neu sgwrs. Mae codi ymwybyddiaeth o'r Archifau ac ymrwymiad cymdeithasol yn rhan bwysig o'r preswyliaid. Cynlluniwyd rhaglen o ddigwyddiadau o amgylch y preswyliaid gan gynnwys teithiau o'r Archifau, gweithdai cyhoeddus a sgwrs. Bydd y dyddiadau union yn cael ei drafod gyda'r artist. Nod y gweithgareddau yma a'r preswyliaid ei hun yw ymestyn cyrhaeddiad ac amlygrwydd yr Archifau. Bydd gofyn i'r artist fod yn gyfforddus yn gweithio gyda phobol ac yn cyflwyno nifer o weithdai cyhoeddus a chyflwyniadau / sgwrsiau neu ddigwyddiadau cyhoeddus eraill.

MEINI PRAWF YR ARTIST: Mae'r preswyliaid ar agor i artistiaid sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Dylai fod gan ymgeiswyr 2 flynedd + o brofiad, gan fod angen hyn a hyn o brofiad er mwyn rhyngweithio ac elfennau amrywiol y preswyliaid. Bydd raid i'r artist fod ar gael i gyflawni'r preswyliaid o fewn y cyfnod 6 mis a nodwyd isod. Croesawyd ceisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dyluniwyd y preswyliaid i fod yn hyblyg ac i gymhwyso a gweithio o gwmpas gofynion yr artist, gan gynnwys artistiaid anabl. Mae adeilad Archifau Morgannwg yn gwbl hygyrch i'r cyhoedd.

CYNNIG YR ARTIST: Gwahoddwyd artistiaid sydd â diddordeb i ddanfôn cynnig un dudalen am sut yr hoffent ymrwymo a'r preswyliaid, sut mae hyn yn cysylltu â'u hymarferiad ac unrhyw syniadau y dymunent ymchwilio trwy'r preswyliaid, ynghyd a hyd at 7 delwedd / dolen i waith. Dylid cyflwyno'r cynnig a'r delweddau/dolenni fel un PDF. Mae hefyd opsiwn i gyflwyno cynnig fideo, gweledol neu sain sy'n cyfateb i'r gofynion uchod yn lle cynnig ysgrifenedig. Awgrymwyd ymweliad a'r Archifau cyn cyflwyno cynnig, os yn bosib (cysylltwch yr Archifau i ymweld).

DYDDIADAU:

- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 30 Awst
- Cyfweiliadau 17 Medi (cadarnhewch os ydych ar gael ar y dyddiad yma)
- Bydd ymgeiswyr yn clywed os ydynt wedi cael ei ddewis erbyn 19 Medi
- Cyfnod y preswyliaid yw 6 mis, Medi-Chwefror

FFI: £6000 Mae'r ffi yn cynnwys costau mewn cyswllt ag amser a theithio'r artist, gyda £500 ychwanegol ar gyfer deunyddiau.

GRŴP LLYWIO: Rhian Diggins (Archifau Morgannwg), Cinzia Mutigli (G39 WARP), Helen Clifford (Made in Roath), Simon Fenolhet (artist Tu Allan i'r Bocs 2016), Johana Hartwig (Art Shell)

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Johana: artshellcontact@gmail.com